**Cofnodion Cyfarfod Tasglu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio (APP) – 27 Ebrill 2023, cyfarfod hybrid – MS Teams ac wyneb yn wyneb yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Andrew Lucas | Cynllun Caru Gwenyn – Hyrwyddwr Gwenyn |
| Anna Hobbs | Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn |
| Ant Rogers | Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth Sir Benfro |
| Anthony Hicks | Llywodraeth Cymru |
| Bethan Beech | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Bleddyn Lake | Cyfeillion y Ddaear |
| Bob Griffiths | CEFNFFYRDD |
| Bruce Langridge | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| Catrin Evans | Ymgynghoriaeth Catrin Evans |
| Clare Flynn | Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn |
| Gary Mitchell | Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol |
| Geoff Robinson | Llywodraeth Cymru |
| Hannah Jones | Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru |
| Harriet Carty | Gofalu am Erw Duw |
| Jan Miller | Cynllun Caru Gwenyn – Hyrwyddwr Gwenyn |
| Jill Jackson | CEFNFFYRDD |
| Jon Walker | Prifysgol Abertawe |
| Katherine Mullin | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Kathleen Carroll | Llywodraeth Cymru |
| Kathryn Thomas | Cyngor Abertawe |
| Kevin McGinn | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| Kipper | Cymdeithas Gwenynwyr Cymru |
| Laura Jones | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| Lucie Taylor | Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol |
| Maggie Gill | APHA – Uned Wenyn Genedlaethol |
| Maria Golightly | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheniog |
| Mark Cleaver | Cyngor Sir Fynwy |
| Rachel Carter | Un Llais Cymru |
| Richard Dawson | Canolfan y DU ar gyfer Ecoleg a Hydroleg |
| Rob Parry | Menter Cadwraeth Natur Cymru |
| Samantha Harris | Llywodraeth Cymru |
| Sarah Kessell | PONT a'r Ymddiriedolaeth Natur |
| Tim Birch | Ymddiriedolaeth Natur |

**1.** Agorwyd y cyfarfod gan Kathleen Carroll. Ni chodwyd unrhyw bwyntiau ychwanegol ynghylch cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd.

2. **Mae Pori'n Rhyfeddol – Sut y Gall Pori Helpu Peillwyr** – Jan Serry (PONT) (Gweler y sleidiau ynghlwm, sy'n cynnwys lluniau hardd o safleoedd sy'n cael eu trawsnewid.)

Eglurodd Jan fod PONT yn elusen fechan sy'n canolbwyntio ar bori cadwraethol a'r budd y gall ei roi i fywyd gwyllt, tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol. Darparodd gyd-destun hanesyddol ar gyfer pori a'i effaith ar fioamrywiaeth. Gall pori gynnal pryfed peillio trwy leihau gormodedd o weiriau bras, gweddillion planhigion marw, prysgwydd, rhedyn a mieri er mwyn cynnal glastir agored a chaniatáu i blanhigion porfa flodeuo. Gall pori ar lefel gywir gynhyrchu tirwedd heterogenaidd a chymysgedd gymhleth o gynefinoedd. Eglurodd hefyd yr effaith negyddol a achosir gan y gwahanol anifeiliaid fferm pan nad yw pori wedi'i amseru'n dda neu pan fydd ei lefel yn rhy uchel. Mae pori ar yr adeg gywir o'r flwyddyn yn ystyriaeth hollbwysig ac fel arfer yn golygu osgoi'r cyfnod blodeuo. Mae cyfraniad maethynnau o anifeiliaid, a lle maen nhw wedi bod yn pori cyn cael eu cyflwyno i safle, hefyd yn bwysig.

Penrhyn Llŷn – LIC, Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) – rhan o'r treial taliadau ar sail canlyniadau – gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Roedd un o'u safleoedd yn SoDdGA ond nid oedd wedi cael ei bori ers dros ddegawd. Mewn pedair blynedd, drwy gael ei bori, mae wedi dod yn laswelltir morol cyfoethog ei rywogaethau (llun gyda sleid Clustog Fair 11). Roedd ffens ar hyd y llinell glogwyn yn sicrhau'r ffermwr y byddai ei anifeiliaid yn ddiogel. Rhoddodd Jan hefyd enghraifft o laswelltir iseldir mewndirol yn Llŷn. Trwy **newid y** patrwm pori yn unig (gweddol fyr yn yr hydref/gaeaf ond ei adael i flodeuo yn y gwanwyn a'r haf) crëwyd safle mwy cyfoethog o ran rhywogaethau (llun gyda sleid cnau'r ddaear 15). Mae'r tymor tyfu yn gynharach ym Mhen Llŷn. Cyn hyn, byddai ffermwyr wedi symud anifeiliaid pori gyda dyddiad cau ym mis Ebrill. Mae PONT wedi darganfod bod symud y dyddiad hwn yn ôl i tan ar ôl y Nadolig wedi cynyddu amrywiaeth rhywogaethau yn enwedig yn achos tegeirianau ac wedi atal rhywogaethau sy'n tyfu'n gynnar fel cribell felen rhag cael eu pori. Mae hyn yn amlygu y gall dyddiadau cau amrywio o ardal i ardal ac na fydd cael un dyddiad cau penodol yn addas ar gyfer pob fferm yng Nghymru.

Cwm Elan – Yn yr ardal hon, yn draddodiadol, nid yw defaid yn tueddu i bori ar laswelltiroedd yr iseldir yn ystod yr haf, ar wahân i ysbeidiau hynod o fyr neu bori ysgafn iawn am gyfnodau byr. Mae'r patrwm pori hwn wedi datblygu porfeydd sy'n llawn rhywogaethau (llun gyda sleid 16 Trilliw y mynydd).

Porfeydd Brwyn - Credai Jan mai porfa frwyn yw un o'r glaswelltiroedd anoddaf i'w hadfer. Mae angen cael gwartheg neu ferlod i'w pori a thynnu defaid oddi yno. Gall hyd yn oed pori ysgafn gan ddefaid gael gwared ar y diddordeb botanegol.

Coetiroedd – mae angen pori er mwyn sicrhau coetir llawn blodau a mwsoglau. Mae angen pori ar y lefelau cywir a'i amseru'n ofalus. Heb bori bydd mieri a chelyn yn cymryd drosodd ac yn dominyddu'r isdyfiant.

**Cam gweithredu:** Kathleen i roi gwybod i dîm datblygu polisi cynllun yr amgylchedd amaethyddol fod gan Jan ganfyddiadau diddorol ynghylch dyddiadau cau. Mae adborth o'u cynllun treialu wedi dangos bod angen cyngor a chymorth uniongyrchol

ar y tir ar gyfer ffermwyr.  Gan fod pob safle'n wahanol, mae amodau'r safle yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac mae cael rhywun sy'n adnabod y tir ac sy'n gallu trafod amseru yn rhoi sicrwydd i'r ffermwr. Barn PONT yw bod angen i'r cyngor gael ei roi ar y tir ac nad yw esbonio egwyddorion trwy weminarau yn ddigon.

3. **Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol** - **Tyfu'n dda gyda'n gilydd: Ein Gwaith yng Nghymru a Ffocws ar Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (AGG) –** Gary Mitchell (Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol) (Gweler y sleidiau sydd wedi'u hatodi mewn pdf)

Y llynedd, roedd Gary yn gynghorydd newydd i Bowys. Mae Awdurdod Lleol Powys wedi datgan argyfwng natur a hinsawdd ac wedi sefydlu tasglu. Mae Gary hefyd yn gadeirydd Gweithgor Ystad Ffermwyr Awdurdod Lleol Powys. Mae gan yr Awdurdod Lleol 131 o ffermydd (11,500 erw) a 40 o leiniau o goetir. Maent yn edrych ar sut y gall y ffermydd hyn fod yn fwy cyfeillgar tuag at natur.

Mae sleid 2 yn dangos map o system fwydydd cymunedol Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol ledled Cymru (ers cynhyrchu'r sleid mae'r nifer wedi cynyddu i 137 o berllannau cymunedol).

Mae manteision cynhyrchu bwyd cymunedol yn cynnwys:

- Cynhyrchiant - gallu sicrhau enillion amgylcheddol uwch o gymharu ag amaethyddiaeth draddodiadol
- Cymuned – gall cynhyrchu bwyd ddod â phobl at ei gilydd mewn lleoliadau traws gymdeithasol.
- Bioamrywiaeth – dangosodd astudiaeth a gynhaliwyd ym Mryste fod garddio rhandir a garddio marchnad yn cynnal bioamrywiaeth

Mae Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (AGG) yn helpu i fynd i'r afael â phryderon cynyddol ynglŷn â diffyg tryloywder, cynaliadwyedd a gwydnwch ein system fwyd. Prif egwyddor AGG yw bod y gymuned yn cefnogi'r ffermwr trwy gysylltiad uniongyrchol. Nid oes unrhyw 'ddynion canol'. Mae'r hyn sy'n cael ei gynhyrchu ar y fferm yn mynd yn uniongyrchol i'r defnyddiwr.

Cyn hyn, byddai perthynas ffurfiol wedi bod rhwng tyfwyr AGG a'u prynwyr, y gymuned a'r ffermwr er mwyn helpu'r tyfwr i weithio'r tir. Mae'r strwythur hwn wedi gwanhau ac erbyn hyn gall y gymuned gymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd.

Ffrwythau a llysiau yw cynhyrchion AGG yn bennaf ond gallant gynnwys wyau, cig, llaeth a choed tân (o ddau goetir a reolir yng Nghymru). Mae gan Sleid 5 fap yn dangos AGG ledled Cymru. Riverford Organics, a sefydlwyd ym 1998, oedd yr AGG cyntaf yng Nghymru a'r DU.

O'r deg AGG mwyaf cynhyrchiol a sefydledig yng Nghymru, ar gyfartaledd byddai safle'n bwydo tua 50 o deuluoedd. Mae rhai safleoedd mor fychan â 2 erw. Maen nhw'n cyflogi tua 15 o staff cyfwerth ag amser llawn. Mae cefnogaeth gwirfoddolwyr hefyd yn bwysig. Nid yw llawer o safleoedd wedi'u hardystio fel rhai organig (mae

hyn yn bennaf oherwydd costau a baich rheoleiddio) ond maen nhw'n dilyn ethos o beidio â defnyddio plaladdwyr neu wrtaith anorganig ac mae ganddynt systemau compostio ar y safle. Am bob £10 sy'n cael ei wario ar gynllun AGG lleol, mae £29 o'r swm hwnnw ar ôl yn y gymuned leol. Ar y llaw arall, mewn archfarchnad, un am un ydyw. Mae Sleid 8 a 9 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y buddion.

Mae safleoedd rhwng un a phum hectar ac felly byddent ar hyn o bryd yn disgyn y tu allan i unrhyw system gymorth ar gyfer cymhorthdaliadau amaethyddol. Maen nhw hefyd y tu allan i hawliau datblygu amaethyddiaeth a ganiateir. Felly, nid oes llawer o gymhelliant i ffermwyr ddarparu tir ar gyfer AGG. Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn rhan o'r Gynghrair Polisi Bwyd. Dywedodd Gary y bydd yn cyfarfod ag Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru i drafod rhwystrau.

Nid yw AGG yn fforddiadwy i bob cymuned ac nid ydynt ym mhob rhan o Gymru felly ceir problemau hygyrchedd. Ar ran Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, cynhaliodd Prifysgol Caerdydd astudiaeth blwyddyn o hyd pan ariannwyd tyfwr (trwy fodelau gwahanol) i ddarparu llysiau ffres am ddim bob wythnos i 4 cymuned drefol ddifreintiedig. Gellir dod o hyd i adroddiad a dolenni eraill ar sleid 9.

Nid yw AGG yn un o elfennau gwaith a ariennir gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol. Maen nhw'n cefnogi AGG gan eu bod yn meddwl mai dyma'r peth iawn i'w wneud a chan ei fod yn ddiddorol. Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn gweithio gyda rhwydwaith CSA UK (corff sy'n cefnogi AGG, yn Lloegr yn bennaf).

Yng Nghymru, mae Tyfu Cymru yn cefnogi garddwriaeth fasnachol. Mae Tyfu Cymru yn rhan o Lantra. Mae Lantra wedi cael contract newydd Cyswllt Ffermio ar gyfer cymorth garddwriaethol drwy'r cynllun ffermio newydd. Bydd Lantra yn darparu cymorth garddwriaethol i gymunedau ffermio o dan Cyswllt Ffermio. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd ac mae'n rhan o symudiad newydd tuag at gynllun ffermio cynaliadwy. Hoffai Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol weithio gyda nhw i gefnogi AGG.

**Cam Gweithredu** (cwblhawyd): Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol i anfon Llythyr Agored ar gyfer Gwelliannau i Fil Amaethyddiaeth (Cymru) at Kathleen WWF Cymru fel y gellir ei ddosbarthu i'r Tasglu.

4. **Cynaeafu Hadau Blodau Gwyllt Bannau Brycheiniog - Astudiaeth Dichonoldeb** – Maria Golightly (Swyddog Prosiect y Bartneriaeth Natur Leol ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) (Gweler sleidiau)

   Comisiynwyd Catrin Evans gan y Bartneriaeth Natur Leol i gynnal yr astudiaeth a oedd yn edrych ar dreialu *datblygiad rhwydwaith o safleoedd rhoi a derbyn hadau blodau gwyllt lleol ar draws y parc.* Yn ystod yr astudiaeth buont yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Plantlife, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru (WTSWW), Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA), Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA), Menter Cadwraeth Natur Cymru, ffermwyr a tirfeddianwyr. Mae Sleid 6 yn dangos gwasgariad y glaswelltir

a gofnodwyd ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n gorchuddio 519 milltir sgwâr.

Nid 'llawlyfr ar gynaeafu hadau blodau gwyllt' yw'r astudiaeth ond mae'n darparu gwybodaeth i'r parc i ganiatáu i staff gynaeafu hadau blodau gwyllt. Cafodd ei lunio o wahanol ffynonellau, adnoddau, rhwydweithiau a gwybodaeth sy'n nodi egwyddorion sylfaenol ac yn cyfeirio at ganllawiau a chyngor manylach.

Gweler Astudiaeth ynghlwm a cheir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol yng nghyflwyniad Maria.

5. **Gofalu am Erw Duw** – Harriet Carty (Gweler y sleidiau ynghlwm yn yr e-bost canlynol)

Mae Gofalu am Erw Duw yn elusen gadwraeth anghrefyddol sy'n ymddiddori mewn claddfeydd o bob math ac enwad, gan gynnwys mynwentydd gwledig a threfol a mynwentydd gwyrdd. Mae gan rai ohonynt y coed hynaf ym Mhrydain ac mae coed yw hynafol yn bwysig yn fyd-eang. Mae mynwentydd eglwysi a mynwentydd yn cynnwys dolydd hynafol. Yn aml dyma'r darn hynaf o dir caeedig mewn plwyf. Mae llawer yn dyddio'n ôl i'r cyfnod Sacsonaidd. Mae llawer o rai eraill yn dyddio o Oes Fictoria sy'n dal i fod cyn cyfnod dinistrio dolydd. Mae rheolaeth y safleoedd wedi bod yn gyson dros y canrifoedd. Ar hyn o bryd mae llawer o safleoedd yn cael eu rheoli'n bennaf fel glaswellt byr, er bod hynny'n newid.

Mae waliau hynafol claddfeydd (a godwyd pan sefydlwyd y claddfeydd), adeiladau a henebion, gyda'u cilfachau, corneli, cerfiadau a'u gwahanol fathau o gerrig, yn gynefinoedd eithriadol i gennau.

Pwynt allweddol yw eu bod yn safleoedd eithaf anodd i'w rheoli ac mae hynny wedi eu hamddiffyn rhag rheolaeth ddwys a allai ddinistrio eu gwerth i fyd natur.

Mae Gofalu am Erw Duw wedi cynnal prosiect mannau bioamrywiaeth-gyfoethog yng nghanolbarth a gogledd-ddwyrain Cymru ac roedd y safleoedd dan sylw wedi'u dewis eu hunain. Cynhaliwyd arolwg botanegol mewn 52 o safleoedd. Dangosodd y canlyniadau fod 15 yn safleoedd bywyd gwyllt lleol posibl ac 17 yn safleoedd posibl o wair gwyrdd neu arbed hadau.

Roedd eu Prosiect Beautiful Burial Grounds yn gweithio gydag Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru a'r NBN. Mae'r prosiect wedi helpu i gychwyn cofnodi biolegol ar eu safleoedd. Rhowch ddata neu chwiliwch am wefan ar: Hafan - Atlas Beautiful Burial Grounds NBN . Gobeithir y bydd cael data biolegol yn caniatáu iddynt godi proffil byd natur gyda pherchogion tir gan fod y ffocws, yn draddodiadol, wedi bod ar y dreftadaeth adeiledig.

Defnyddir Wythnos Caru Eich Mynwent ddechrau Mehefin ac Eglwysi sy'n Cyfrif ar Natur i godi ymwybyddiaeth dinasyddion ac annog cofnodi. Yn 2021-22 cynhaliwyd 900 o ddigwyddiadau ganddynt a chafodd 27,000 o gofnodion eu creu. Mae'r

digwyddiadau yn ffordd dda o ymgysylltu â phobl ac i ysgogi rheolaeth gadarnhaol o'r tiroedd.

Mae'n ymddangos bod sefydliad yr Eglwys yn dod yn fwy agored i fabwysiadu ffyrdd a fydd yn gwella bioamrywiaeth. Mae’r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i’r targedau bioamrywiaeth a net sero erbyn 2030.

Elusen fechan iawn yw Gofalu am Erw Duw ac mae bob amser yn gweithio mewn partneriaeth. Byddent yn croesawu cyfleoedd i wneud prosiectau ar y cyd.

## 6. Y cyfarfod nesaf

Aeth y cyfarfod yn ei flaen dros ei amser ac roedd hyn i'w benderfynu drwy e-bost.

Yn ystod y cyfarfod gwnaed cais i swyddogion polisi LlC o'r timau plaladdwyr ac amaeth-amgylchedd fynychu'r cyfarfod nesaf.